Cryfhau partneriaeth gymdeithasol

Strengthening social partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Astudiaeth Achos Cyflog Byw Cyngor Caerdydd

Dysgwch am sut mae Cyngor Caerdydd wedi gweithio gyda phartneriaid i wneud Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw Gwirioneddol a manteision economaidd hynny i'r Brifddinas

**Gwnaeth Cyngor Caerdydd yr ymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff yn 2012 ac fe'i hachredwyd fel Cyflogwr Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw yn 2015.**

Ym mis Gorffennaf 2017, nododd y Cyngor ei uchelgais i Gaerdydd ddod yn Ddinas Cyflog Byw mewn ymateb i gynnydd mewn prisiau tai, bwyd a thanwydd a'r cynnydd mewn costau byw, yn enwedig gyda thlodi mewn gwaith yn dod yn broblem gynyddol yn y ddinas a ledled y DU.


Sefydlwyd Partneriaeth Dinas Cyflog Byw Caerdydd yn 2018 i sicrhau mwy o swyddi yn y ddinas sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, er mwyn annog cyflogwyr i ddod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig ac i ennill statws Dinas Cyflog Byw ar gyfer Caerdydd. Datblygodd y Bartneriaeth, sy'n cynnwys sefydliadau preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, Gynllun Gweithredu 3 blynedd uchelgeisiol. Yn sgil hynny, Caerdydd oedd yr ail ddinas yn y DU i gael ei chydnabod fel Dinas Cyflog Byw yn 2019.


Dywedodd Cadeirydd y y Bartneriaeth ac Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cynghorydd Huw Thomas: "Mae'r Cyngor yn credu bod talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn ddangosydd allweddol o ymrwymiad cyflogwr i arferion gwaith teg. Rydym yn gwybod y gwahaniaeth enfawr y mae'n ei wneud i fywydau'r rhai sy'n derbyn codiad i ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol, a'u teuluoedd."

Ond mae dal llawer gormod o bobl yng Nghaerdydd sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, felly byddwn yn parhau i weithio gyda busnesau a sefydliadau, bach a mawr, i hyrwyddo manteision dod yn gyflogwr Cyflog Byw."

Mae'r graffeg isod yn tynnu sylw at lwyddiant y bartneriaeth i hyrwyddo talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol hyd yn hyn a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar yr economi leol. Nid yw'r niferoedd yn adrodd y stori gyfan, y stori go iawn yw'r effaith gadarnhaol y mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn ei chael ar weithwyr a chyflogwyr.

I gael gwybod mwy am y Cyflog Byw Gwirioneddol, ewch i www.livingwage.wales ac i ddarganfod beth mae cyflogwyr achrededig yn ei feddwl o'r Cyflog Byw Gwirioneddol darllenwch Adroddiad Ysgol Busnes Caerdydd.







OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48323
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg